Cymdeithas Athrawon Cristnogol Cymru (CACC)

www.act-wales.org.uk

Telerau ac Amodau ar gyfer Defnyddio'r Wefan

(diweddaraf ddiwethaf 26 Ebrill 2006)

SYLWER: mae'r telerau a'r amodau hyn yn berthnasol i holl gynnwys y wefan hon dan enw parth **www.act-wales.org.uk**

Darllenwch nhw'n ofalus cyn defnyddio'r wefan. Trwy ddefnyddio'r wefan rydych yn derbyn y telerau a'r amodau hyn. Os nad ydych yn derbyn y telerau a'r amodau hyn, yna peidiwch â defnyddio'r wefan.

1 CYFLWYNIAD

1.1 Gallwch gael mynediad i rannau o'r wefan hon heb fod yn aelod o CACC / ACTW.

1.2 Drwy gael mynediad i unrhyw ran o'r wefan hon, cymerir eich bod wedi derbyn y telerau a'r amodau hyn yn llawn. Os nad ydych yn derbyn y telerau a'r amodau hyn yn llawn, rhaid i chi adael y wefan yn syth.

1.3 Mae'n bosibl y bydd ACTW yn adolygu'r telerau a'r amodau hyn unrhyw adeg drwy ddiweddaru'r wybodaeth hon. Dylech edrych yn achlysurol ar y wefan hon i adolygu'r telerau a'r amodau presennol, gan eich bod yn ymrwymedig iddynt.

1.4 Cyhoeddir y telerau a'r amodau hyn gan ACTW ac mae eu swyddfa gofrestredig yn:
17 Brynmawr Place, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, CF34 9PB.

2 DEFNYDDIO DEUNYDD SY'N YMDDANGOS AR WEFAN CACC (ACTW)

2.1 Mae gwefan ACTW, ei dyluniad, cynllun, edrychiad, diwyg a'r graffigwaith yn eiddo i ACTW ac i neb arall.

2.2 Oni bai y nodir fel arall, mae'r hawlfraint a'r hawliau eiddo deallusol eraill yn holl ddeunyddiau'r wefan hon yn eiddo i ACTW. Mae hyn yn cynnwys yr holl destun, graffigwaith, delweddau, ffotograffau, deunydd fideo a sain.

2.3 Gallwch gopïo, llwytho i lawr neu argraffu rhannau o ddeunydd ar wefan ACTW at ddefnydd personol yn unig. Gallwch hefyd wneud copïau o ddeunydd a lwythwyd i lawr ac a argraffwyd at ddefnydd personol. Ni chaniateir copïo, llwytho i lawr neu argraffu deunydd, na rhan o ddeunydd, mewn dull systematig na rheolaidd fydd yn creu cronfa ddata ar ffurf electronig neu bapur fydd yn cynnwys yr holl ddeunydd neu ran o'r deunydd sy'n ymddangos ar wefan ACTW. Ni chaniateir gwerthu na chyfnewid deunydd ar wefan ACTW, fydd yn golygu eich bod ar eich ennill yn ariannol, gan nad yw'n eiddo i chi. Ni chaniateir chwaith rannu unrhyw ddeunydd a geir ar wefan ACTW, oherwydd eiddo ACTW yw'r deunydd hwnnw, bob amser.

2.4 Os hoffech ailgyhoeddi erthygl sydd ar y wefan, dylech yn gyntaf gael caniatâd ysgrifenedig gan ACTW. Rhoddir caniatâd i ailgyhoeddi yn ôl disgresiwn ACTW ond gellir rhoi caniatâd ar yr amod bod yr eitem yn: (a) cael ei hailgyhoeddi'n gywir ar ffurf sydd heb ei golygu; (b) cydnabod mai eiddo ACTW a'r awdurdod perthnasol yw hi; a (c) na ddefnyddir hi mewn modd sy'n gwrthddweud neu'n tanseilio gwaith a gweinyddiaeth ACTW neu'r Eglwys Gristnogol.

2.5 Os ailgyhoeddir unrhyw erthygl o'r wefan hon ar ffurf papur, yna dylid anfon copi o'r cyhoeddiad (e.e. papur newydd, cylchgrawn, etc) y mae'n ymddangos ynddo am ddim i ACTW. Yn yr un modd, os ailgyhoeddir unrhyw erthygl o'r wefan hon ar ffurf electronig sydd heb fod ar y we (e.e. ar CD, CD Rom, DVD, fideo VHS, etc) dylid anfon copi o'r adnodd sy'n cynnwys yr eitem am ddim i ACTW. Fel arall, os ailgyhoeddir unrhyw erthygl o'r wefan hon ar wefan arall dylid anfon cyswllt i'r deunydd hwn i ACTW.

2.6 Mae defnyddio delweddau ffotograffig sydd ar unrhyw ran o wefan ACTW, heb gael caniatâd ymlaen llaw, yn torri'r hawlfraint. Os hoffech ddefnyddio delwedd sydd ar y wefan hon, yna cysylltwch ag ACTW i gael manylion pellach.

2.7 Os byddwch yn torri'r telerau a'r amodau hyn yna bydd eich hawl i ddefnyddio'r wefan hon ac unrhyw rannau o ddeunydd ohoni'n dod i ben. Rhaid i chi ddileu unrhyw ddeunydd a lwythwyd i lawr neu a argraffwyd o'r wefan yn syth.

3 DEUNYDD AC YMDDYGIAD YMWELYDD

3.1 Ar wahân i wybodaeth bersonol amdanoch sy'n rhan o'n polisi preifatrwydd, bydd unrhyw ddeunydd y byddwch yn ei drosglwyddo neu'n ei arddangos ar y wefan hon yn cael ei ystyried fel deunydd sydd heb fod yn gyfrinachol a heb fod yn berchnogol. Ni fydd ACTW wedi'i ymrwymo o ran y deunydd hwn, a bydd yn rhydd i gopïo, datgelu, dosbarthu, cynnwys a defnyddio'r deunydd hwn a'r holl ddata, delweddau, sain, testun a phethau eraill a gynhwysir at unrhyw ddiben.

3.2 Fe'ch gwaherddir rhag anfon neu drosglwyddo i'r wefan hon unrhyw ddeunydd:

(i) sy'n fygythiol, difrïol, anweddus, anweddaidd, bradwrus, tramgwyddus, pornograffig, sarhaus, sy'n debygol o achosi atgasedd hiliol a/neu grefyddol, sy'n gwahaniaethu, yn gableddus, yn torri ymddiriedaeth neu breifatrwydd, yn gwrthddweud neu'n tanseilio gwaith a gweinyddiaeth ACTW neu'r Eglwys, neu a allai achosi blinder neu anghyfleuster; neu

(ii) heb yr holl drwyddedau a/neu gymeradwyaethau angenrheidiol; neu

(iii) sy'n cynnwys neu'n hybu ymddygiad a fyddai'n cael ei ystyried fel trosedd, yn achosi ateboliaeth sifil, neu'n groes i'r gyfraith neu'n troseddu ar hawliau unrhyw drydydd parti yn y DU neu unrhyw wlad arall; neu

(iv) sy'n niweidiol yn dechnegol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, firysau cyfrifiadurol, *logic bombs*, *Trojan horses*, mwydod, cydrannau niweidiol, data llygredig neu feddalwedd maleisus neu ddata niweidiol arall).

3.3 Ni chaniateir i chi gamddefnyddio'r wefan (yn cynnwys, heb gyfyngiad, drwy hacio).

3.4 Bydd ACTW yn cydweithredu'n llawn ag unrhyw awdurdod sy'n gorfodi'r gyfraith neu orchymyn llys sy'n gwneud cais i ACTW neu'n ei gyfarwyddo i ddatgelu enw a/neu leoliad unrhyw un sy'n arddangos unrhyw ddeunydd sy'n torri amodau 3.2 neu 3.3 uchod.

4 CYSYLLTAU I'R WEFAN HON

4.1 Os hoffech gael cyswllt i'r wefan hon, cewch wneud hynny'n unig ar sail eich bod yn creu cyswllt i hafan y wefan hon, ond nid i'w chopïo, ac ar sail yr amodau canlynol:

(i) nad ydych yn cael gwared, newid neu addasu maint neu ddiwyg logo ACTW
(ii) nad ydych yn creu ffrâm neu unrhyw amgylchedd pori neu ymyl o amgylch y wefan hon
(iii) nad ydych yn awgrymu mewn unrhyw ffordd bod ACTW yn cymeradwyo unrhyw beth heblaw am ei weithrediadau ei hun;
(iv) nad ydych yn cam-gynrychioli eich perthynas ag ACTW nac yn cyflwyno unrhyw wybodaeth ffug arall am ACTW;
(v) nad ydych yn defnyddio enw a logo ACTW heb gael caniatâd ysgrifenedig penodol gan ACTW;
(vi) nad ydych yn creu cyswllt o wefan nad yw'n eiddo i chi;
(vii) nad yw cynnwys eich gwefan yn annymunol, tramgwyddus neu'n ddadleuol, neu'n troseddu ar unrhyw hawliau eiddo deallusol neu hawliau eraill unrhyw berson neu heb fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol.

4.2 Mae ACTW yn cadw'r hawl yn benodol i dynnu'n ôl y caniatâd a roddwyd yn amod 4.1 os torrwch y telerau a nodwyd yn yr amod hwnnw, ac i gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â thoramod o'r fath fel yr ystyrir yn briodol.

4.3 Rydych yn cytuno i dalu iawndal i ACTW am unrhyw golled neu ddifrod a achosir i ACTW o ganlyniad i dorri amod 4.1.

5 RHEOLI GWYBODAETH A DIOGELWCH

5.1 Os hoffech gysylltu ag ACTW gallwch wneud hynny ar-lein drwy wefan ACTW.

5.2 Bydd ACTW yn defnyddio unrhyw ddata personol a gasglwyd yn ystod y defnydd o wefan ACTW yn unol â'n polisi preifatrwydd.

5.3 Mae unrhyw gyswllt ag unrhyw drydydd parti drwy wefan ACTW, yn arbennig hysbysebwyr a/neu fasnachwyr, ac unrhyw delerau ac amodau a gytunir gyda, neu sylwadau a roddwyd gan, unrhyw drydydd parti o'r fath, rhyngoch chi a'r trydydd parti hwn yn unig, gan gynnwys mewn perthynas â diogelu a sicrhau eich data personol neu fanylion ariannol. Rydych yn cytuno nad yw ACTW yn atebol am gyswllt o'r fath.

6 RHYBUDD YMWRTHODIAD

6.1 Drwy gael mynediad i wefan ACTW rydych yn cytuno na fydd ACTW neu ei asiantau, swyddogion neu weithwyr dan unrhyw amgylchiadau yn atebol neu'n gyfrifol am: unrhyw gynnwys sydd wedi'i gynnwys neu ei hepgor o wefan ACTW; dibyniaeth unrhyw berson ar gynnwys o'r fath, boed y cynnwys yn gyflawn, gyfredol neu gywir ai peidio; unrhyw firysau neu broblemau a ganfyddir ar wefan ACTW.

6.2 Mae'r holl wybodaeth ar wefan ACTW wedi'i fwriadu er gwybodaeth yn unig. Ni fydd ACTW yn gyfrifol am unrhyw ddifrod neu golled a achosir o ganlyniad i unrhyw beth a wnewch, neu na wnewch, o ganlyniad i ddarllen, edrych neu wrando ar unrhyw ddeunydd, neu unrhyw ran ohono, ar wefan ACTW.

6.3 Nid yw ACTW yn atebol nac yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anghywirdeb, gwallau (gan gynnwys gwallau argraffyddol) neu ddiffygion, neu am y canlyniadau yn sgil defnyddio gwefan ACTW neu ei chynnwys. Mae'r holl gynnwys ac unrhyw wasanaeth a gynhwysir yng ngwefan ACTW, a hysbysebir arni, neu sydd ar gael drwy gyfrwng y wefan, yn cael ei ddarparu "fel y mae" a "sydd ar gael", heb unrhyw sicrwydd o gyflawnrwydd, cywirdeb, (naill ai pan arddangosir ef neu gydag amser), prydlondeb neu ganlyniadau a gafwyd, ac eithrio'r hyn a ganiateir i'r eithaf yn ôl y gyfraith, yr holl sylwadau, sicrwydd, amodau a thelerau eraill (yn cynnwys, heb gyfyngiad, yr amodau a orfodir gan y gyfraith o ran safon foddhaol, addasrwydd i ddiben, a'r defnydd o ofal a gallu rhesymol), fyddai, oni bai am y telerau a'r amodau hyn, yn gallu effeithio mewn perthynas â'r wefan hon.

6.4 Mae gwefan ACTW a'r cynhyrchion a'r digwyddiadau a ddisgrifir ynddi yn agored i newid heb rybudd.

6.5 Nid yw'r farn a fynegir ar wefan ACTW o anghenraid yn adlewyrchu barn ACTW. Nid yw'r holl wybodaeth, ac unrhyw gyngor a dderbynnir drwy wefan ACTW, wedi'i bwriadu, ac ni ddylid dibynnu arni, ar gyfer unrhyw benderfyniadau personol, proffesiynol, cyfreithiol neu grefyddol yr hoffech eu gwneud. Yn hytrach dylech ymgynghori â gweithiwr proffesiynol priodol er mwyn cael cyngor penodol wedi'i deilwra i'ch sefyllfa.

6.6 Gallai deunydd ar wefan ACTW fod yn agored i lygredd data, rhyng-gipio a diwygiadau heb eu hawdurdodi nad yw ACTW yn derbyn atebolrwydd na chyfrifoldeb amdanynt. Nid yw ACTW yn derbyn atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw firysau cyfrifiadurol mewn unrhyw ddeunydd ar wefan ACTW, prun ai a edrychir arno, gwrandewir arno, neu ei gopïo, ei lwytho i lawr, ei argraffu neu fynediad mewn unrhyw ffordd arall. Nid yw ACTW yn derbyn atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw golledion a achosir o ganlyniad i firysau cyfrifiadurol mewn unrhyw ddeunydd ar wefan ACTW

6.7 Nid yw hysbysebion (gan gynnwys hysbysebion baneri a hysbysebion naid) sydd i'w gweld ar wefan ACTW yn awgrymu ein bod yn cymeradwyo'r nwyddau a'r gwasanaethau a hysbysebir. Ni fydd ACTW yn derbyn atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw ddifrod i i'ch offer cyfrifiadurol, meddalwedd, data neu eiddo arall o ganlyniad i edrych ar hysbysebion, neu ymateb iddynt (gan gynnwys hysbysebion baneri a hysbysebion naid) sydd ar wefan ACTW.

6.8 Mae gwefan ACTW yn cynnwys cysylltau i wefannau eraill. Nid yw ACTW yn derbyn atebolrwydd na chyfrifoldeb am gynnwys gwefannau nad ydynt dan ei reolaeth.

6.9 Nid yw ACTW yn sicrhau y bydd gwefan ACTW yn gytûn gyda'r holl galedwedd a'r feddalwedd a allai gael eu defnyddio gan ymwelwyr i'r safle. Ni fydd ACTW yn derbyn atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw ddifrod i'ch offer cyfrifiadurol, meddalwedd, data neu eiddo arall o ganlyniad i gael mynediad i, defnyddio, neu bori unrhyw ddeunydd ar wefan ACTW.

6.10 Os bydd y defnydd a wnewch o ddeunydd ar y wefan hon yn golygu bod angen gwasanaethu, trwsio neu addasu offer, meddalwedd neu ddata, yna chi fydd yn gyfrifol am yr holl gostau perthnasol.

6.11 Ni fydd unrhyw beth yn y telerau a'r amodau hyn yn eithrio atebolrwydd ACTW na ellir ei eithrio neu ei gyfyngu dan gyfraith berthnasol.

6.12 Yn amodol ar amod 6.11 rydych yn cael mynediad i wefan ACTW ar eich risg eich hun ac os nad ydych yn fodlon gydag unrhyw ran o wefan ACTW, neu gydag unrhyw delerau neu amodau ar gyfer ei defnyddio, yr unig ateb yw rhoi'r gorau i ddefnyddio gwefan ACTW.

7 DARPARU GWASANAETH

7.1 Nid yw ACTW yn sicrhau y bydd gwefan ACTW yn ddiogel, ac y bydd mynediad parhaus iddi – heb ymyrryd neu oedi – ac yn gyfan gwbl ddiwall 100% o'r amser. Nid yw ACTW yn derbyn atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw dorri amodau diogelwch, ymyriadau neu oedi, neu wallau posibl ar wefan ACTW.

8 AWDURDODAETH

8.1 Rheolir a dehonglir y telerau a'r amodau hyn yn unol â chyfraith Lloegr a Chymru, a bydd unrhyw anghydfod sy'n codi ynghylch y telerau a'r amodau hyn yn agored i awdurdodaeth benodol llysoedd Lloegr a Chymru.